

Cwestiynau Cyffredin (mae'r atebion sy'n cael eu darparu yma yn berthnasol i'r gwasanaeth cyfyngedig sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yn sgil cyfyngiadau'r Coronafeirws ac nid ein gwasanaeth llawn reolaidd)

Beth yw'r gwasanaeth IBobUn?

1. Mae'r gwasanaeth IBobUn yn darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb i gwsmeriaid sy'n dymuno cyrchu'r gwasanaethau canlynol:
 - Y broses gwneud cais am Fathodyn Glas
 - Y broses gwneud cais am docyn bws (<https://trc.cymru/cy/cerdynteithio>)
 - Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor (y broses gwneud cais, cyflwyno tystiolaeth ac ymholiadau)

Sut mae'r gwasanaeth IBobUn yn gweithio?

1. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o 5 lleoliad ledled Rhondda Cynon Taf;
 - Llys Cadwyn (Llyfrgell Pontypridd) - ar agor 5 diwrnod yr wythnos
 - Llyfrgell Aberdâr - Ar agor 5 diwrnod yr wythnos
 - Llyfrgell Treorci - Ar agor 5 diwrnod yr wythnos
 - Canolfan Pennar (Llyfrgell Aberpennar) - Ar agor 4 diwrnod yr wythnos, ar gau ddydd Mercher.
 - Llyfrgell y Porth (Plasa'r Porth) - Ar agor 4 diwrnod yr wythnos, ar gau ar ddydd Mercher.
2. Mae modd trefnu apwyntiadau 15 munud drwy ffonio Canolfan Alwadau RhCT ar 01443 425005 neu ar-lein yn <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Contactus/One4aLLAdviceService.aspx>.
3. Rhaid i chi wisgo gorchudd wyneb, defnyddio hylif diheintio dwylo a llenwi ffurflen Monitro ac Orlhain cyn mynd i mewn i'r adeilad. Caiff cwsmeriaid sydd â rheswm dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb sy'n ymwneud ag oedran, iechyd neu anabledd, fynd i mewn heb orchudd wyneb.
4. Bydd aelod o staff yn cwrdd â chi wrth y fynedfa i gadarnhau eich apwyntiad, cymryd eich manylion a'ch cyfeirio at y man aros.
5. Unwaith y bydd yr ymgynghorydd yn barod, bydd yn eich galw i mewn i'r swyddfa ar gyfer eich apwyntiad.
6. Cadwch bellter cymdeithasol ar bob adeg.

A yw hyn yn ddiogel?

Mae gwasanaeth IBobUn yn cydymffurfio â chyfarwydddebau iechyd a diogelwch cyfredol.

A fydd angen i fi giwio?

Bydd cwsmeriaid yn cael amser apwyntiad a bydd gofyn i chi giwio y tu allan i'r llyfrgell os byddwch chi'n cyrraedd fwy na 5 munud cyn amser eich apwyntiad. Gofynnwn i chi gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol a pharchu staff y llyfrgell os bydd angen iddyn nhw ofyn i chi gymryd eich lle mewn ciw.

Beth sy'n rhaid i mi ddod ag ef i'm hapwyntiad?

Mae angen i chi ddod â ffurflen gais wedi'i chwblhau a dogfennau ategol i'r mwyafrif o apwyntiadau. Bydd yr ymgynghorydd yn gwirio bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir, ond oherwydd yr amser byr sydd ar gael rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n cwblhau cymaint o'r ffurflen â phosibl cyn eich apwyntiad.

Os oes angen help arnoch chi i gwblhau'r ffurflen ac nad oes gennych unrhyw un i'ch cynorthwyo, trefnwch apwyntiad hirach.

Os nad yw'r ffurflen angenrheidiol gyda chi eisoes, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gofyn bod ffurflen yn cael ei hanfon atoch pan fyddwch chi'n trefnu'r apwyntiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser i'w chwblhau'n llawn a chael y wybodaeth sydd ei hangen cyn yr apwyntiad.

Oes modd i mi drafod sawl ymholiad mewn un apwyntiad?

Nac oes. Er enghraifft, os oes angen Bathodyn Glas a thocyn bws arnoch chi, bydd angen i chi drefnu 2 slot apwyntiad

Oes modd i mi wneud taliad?

Nid ar hyn o bryd, gan na fydd desgiau talu ar gael ar hyn o bryd.

Oes modd i fwy nag un person ddod i'r apwyntiad?

Sylwch fod apwyntiadau ar gyfer unigolion ac felly dim ond un person ddylai fynychu. Os yn bosibl, gwnewch bob ymdrech i ddod ar eich pen eich hun. Caiff cynhalwyr a dibynyddion fynd gyda chi os oes angen.

Oes modd i mi ddefnyddio unrhyw gyfleusterau eraill yn yr adeilad?

Bydd gan bob un o'r gwasanaethau mewn adeilad eu gweithdrefn trefnu apwyntiadau eu hunain a does dim mynediad agored i unrhyw adeilad i neb ar hyn o bryd. Mae modd i chi ddefnyddio'r cyfleusterau eraill ond rhaid i chi drefnu apwyntiad ar wahân gyda phob gwasanaeth.

Beth ddylwn i'w wneud os byddaf yn colli fy amser apwyntiad?

Os byddwch chi'n colli'ch apwyntiad fydd dim modd i'r ymgynghorydd eich gwasanaethu, a bydd yn rhaid trefnu apwyntiad newydd. Er mwyn cadw at bellter cymdeithasol ac i gadw staff a chwsmeriaid yn ddiogel, bydd angen i ni gadw at yr amserlen wedi'i chynllunio ymlaen llaw.